# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION CYFARFOD 5ed CHWEFROR 2019

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Troedyraur ar nos Fawrth, 5ed Chwefror yn Neuadd Rhydlewis.

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng Julie Davies<br>Cyng Emyr Wyn Jones<br>Cyng Mark Davies | Cyng Maldwyn Lewis<br>Cyng Ceri Jones |
| **Ymddiheuriadau** | Cyng Owenna Davies<br>Cyng Evan John Jones<br>Cyng Roger Davies | Cyng Teifi Evans<br>Cyng Eirian James<br>Cyng Llŷr Evans |
| **Clerc** | Eleanor Colbourne | |

| Eitem agenda | Gweithredu | Gan bwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| **1. Derbyn ymddiheuriadau** | Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng Owenna Davies, Cyng Teifi Evans, Cyng Evan John Jones, Cyng Eirian James, Cyng Roger Davies a'r Cyng Llŷr Evans | | |
| **2. Cadarnhau cofnodion** | Cynnigiwyd gan y Cyng Emyr Wyn Jones ac eiliwyd gan y Cyng Ceri Jones fod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir. | | |
| **3. Datgan diddordeb** | Datgelodd y Cyng Maldwyn Lewis, Cyng Mark Davies, Cyng Ceri Jones a'r Cyng Emyr Wyn Jones ddiddordeb mewn eitem ar yr agenda sef eitem 9 – Ceisiadau Ariannol. | | |
| **4. Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion** | • Roedd y clerc heb dderbyn enw na chyfeiriad deiliaid y tŷ yn Maesllyn lle mae'r diffibriliwr. Yn ystod y drafodaeth yma cafwyd enw a chyfeiriad. Y clerc i anfon llythyr i ddiolch iddynt am fod mor barod i ganiatau i ni rhoi'r diffibriliwr a'r bocs ar wal y tŷ. | Clerc | Cyfarfod nesaf |
| | • Roedd y clerc heb dderbyn dyddiadau gan Emyr Jones ynglŷn â hyfforddiant diffibriliwr yn ardal Brongest a Maesllyn. Ar ôl i'r clerc siarad gyda Mr Jones, dywedodd fod Eglwys Troedyraur ddim yn addas ar gyfer hyfforddiant. Penderfynwyd cynnal yr hyfforddiant yn Neuadd Coedybryn a Maesllyn. Y clerc i gysylltu gyda Emyr Jones ac yna unwaith bydd y clerc yn derbyn ddyddiadau, yna hysbysebu'r hyfforddiant.<br>• Ail edrych ar arwyddion Maesllyn a Penrhiw-pal yn y flwyddyn ariannol newydd.<br>• Gravel trap, Brongest – nodwyd fod un 'chamber' yn hanner llawn a'r llall yn wag. Edrych arno mewn 3 mis. | Clerc | Ar unwaith |
| | • Golau Stryd Brongest – roedd y clerc wedi derbyn ebost oddi wrth Simon Bray yn dweud fod galwadau arall yn gorfod cael blaenoriaeth. Daethpwyd i'r | Clerc | Ar unwaith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | penderfyniad fod yr ebost ddim yn egluro dim pryd mae'r golau yn mynd gael ei roi yn ôl. Penderfynwyd anfon ebost yn ôl i Simon Bray yn nodi ein bod yn anfodlon gyda cynnwys ei ebost, ac yn siomedig gyda diffyg gwasanaethau yn yr adran. Hefyd, gofyn am ddyddiad pryd y bydd yn ymweld â'r safle er mwyn i un o'r cynghorwyr i fod yn bresennol. Angen copio i fewn y cadeirydd, is gadeirydd, y cynghorydd sir a hefyd y cynghorydd sir sydd â gofal am oleuadau stryd.<br>• Atgoffwyd y Cyng Mark Davies a'r Cyng Julie Davies a'r clerc ei bod yn mynychu yr hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad yn Ysgol Uwchradd Aberteifi, Nos Lun, 18fed Chwefror, 2018 am 7.00 o'r gloch. Angen i'r clerc atgoffa y Cyng Teifi Evans. | Clerc | |
| **5. Materion y Cynghorydd Sir** | • Cafwyd gwybodaeth fod ymchwiliadau annibynnol yn mynd ymlaen ynglŷn â Ysgol Uwchradd Aberteifi.<br>• Roedd ymgynghoriad ar Ysgolion Cynradd Beulah a Threwen yn mynd ymlaen ar hyn o bryd.<br>• Ymgynghoriad ar ddyfodol Theatr Felinfach.<br>• Cyrsiau ar gyfer gyrrwr 65+ ar yr 28-02-19, 07-03-19, 22-03019. Am fwy o wybodaeth cysyllter â 01545 570881.<br>• Papur Gwyn ar Bîl yr Iaith Gymraeg ddim yn mynd ymlaen ar hyn o bryd. | | |
| **6. Gohebiaeth** | • Hyfforddiant Un Llais Cymru – roedd dim diddordeb gan unrhyw gynghorwr mewn hyfforddiant i gymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant yn ystod mis Chwefror.<br>• Cylchlythyr cominisydd Heddlu Dyfed-Powys – gwybodaeth yn unig – ond nodwyd fod llawer iawn o wybodaeth o Sir Benfro. | | |
| **7. Ariannol** | Talwyd y sieciau canlynol:-<br>• HMRC - £50.00<br>• Tâl y Clerc - £200.00<br>• Llinos Haf Jones (cyfieithu) - £156.45<br>• Ashmole & Co - £76.80 | | |
| **8. Cynllunio** | A181149 – plot adjacent to Little Paddock, Croeslan – erection of a dwelling – roedd pawb yn dal i gefnogi'r cais yma. Yr un sylw roedd ganddynt oedd fod y garej wedi cael ei dynnu oddi ar y safle. | Clerc | Ar unwaith |
| **9. Ceisiadau Ariannol** | Cyn trafod y ceisiadau canlynol, aethpwyd trwy'r daflen criteria. Gwnaethpwyd man newidiadau i'r daflen. Penderfynwyd rhoi £150.00 i'r isod<br>• Neuadd Ffostrasol<br>• Clwb Bowlio Rhydlewis – mi adawodd y Cyng Ceri Jones yr ystafell er mwyn i'r gweddill cael trafod y cais. Roedd yn aelod o'r clwb bowlio.<br>• Neuadd Coedybryn – mi adawodd y Cyng Emyr Wyn Jones yr ystafell er mwyn i'r gweddill cael trafod y cais. Roedd yn aelod o bwyllgor y Neuadd.<br>• Clwb Ffermwyr Ifanc Troedyraur<br>• Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 - Cronfa Apél ardal Troedyraur – mi adawodd y Cyng Mark Davies (is gadeirydd) a'r Cyng Maldwyn Lewis yr ystafell gan ei bod yn aelodau | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | o'r pwyllgor. Gorfi i'r clerc arwain y drafodaeth.<br>Penderfynwyd i anfon y daflen criteria allan gyda'r sieciau y mis nesaf.<br><br>Ni fydd y canlynol yn derbyn rhodd oddi wrth y Cyngor Cymuned gan nad ydynt yn cyrraedd y criteria. Mi fydd y daflen criteria cael ei anfon atynt.<br>• Eglwys Capel Cynon<br>• Eisteddfod Gadeiriol Rhydlewis<br>• Ysgol Gerdd Ceredigion<br>• Eglwys Troedyraur | | |
| **10. Materion Ardal** | Gadael yr eitem tan y cyfarfod nesaf gan fod yr amser yn mynd yn ei flaen. | | |
| **11. Sbwriel** | Nodwyd fod Cyngor Sir Ceredigion yn paratoi 'clinical waste'.<br>Gadael yr eitem tan y cyfarfod nesaf gan fod y cadeirydd ddim yn bresennol i arwain y drafodaeth. | | |
| **12. Cadwyn Y Cadeirydd** | Roedd y clerc wedi cysylltu gyda chwmni ym Mirmingham ond ni chafwyd ymateb. Y clerc i gysylltu eto cyn y cyfarfod nesaf. | Clerc | Erbyn y cyfarfod nesaf |
| **13. Llofnodion Banc** | Erbyn hyn roedd pawb wedi arwyddo'r ffurflen banc ond roedd pawb heb fynd a'r wybodaeth perthnasol i'r banc. Atgoffwyd pawb a oedd heb i'w wneud. | | |
| **14. Eitemau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf** | Materion Ardal<br>Sbwriel<br>Cadwyn Y Cadeirydd | | |
| **15. Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf** | 05ed Mawrth, 7.30 Neuadd Ffostrasol | | |

Llofnod (Cadeirydd) ______________________________

Llofnod (Is-Gadeirydd) ______________________________